




Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir



Mawrth 2019

PC 38: Dynodiadau Treftadaeth

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print mawr a gallwn ei chyfieithu i ieithoedd eraill, cysylltwch â y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad a Chwmpas y Papur Cefndir	4
2.	Cymeriad a Saernïaeth Bwrdeistref Sirol Conwy.....	4
3.	Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol	5
4.	Adeiladau Rhestredig.....	6
5.	Ardaloedd Cadwraeth	7
6.	Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd.....	9
7.	Tirweddau Hanesyddol, Parciau a Gerddi.....	10
8.	Henebion Rhestredig a Safleoedd Archeolegol.....	11
9.	Asedau Hanesyddol o Bwysigrwydd Lleol.....	11

1. Cyflwyniad a Chwmpas y Papur Cefndir

- 1.1 Mae hwn yn un o gyfres o Bapurau Cefndir sydd yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (CDLIN). Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Strategaeth ac i'w Archwilio a Ffefrir, rhaid iddo egluro sut mae'r polisi wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd. Mae'r Papur Cefndir hwn yn edrych ar ddynodiadau treftadaeth ar draws ardal Bwrdeistref Sirol Conwy (gan eithrio Parc Cenedlaethol Eryri).
- 1.2 Mae prif adrannau'r Papur Cefndir yn mynd i'r afael â chymeriad a saernïaeth Bwrdeistref Sirol Conwy, Adeiladau Rhestredig gan gynnwys y rhai ar y gofrestr 'mewn perygl', ardaloedd cadwraeth, Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd, Safle Treftadaeth y Byd yn nhref Conwy, Parciau a Gerddi Hanesyddol a Henebion Rhestredig a Safleoedd Archeolegol.

2. Cymeriad a Saernïaeth Bwrdeistref Sirol Conwy

- 2.1 Mae gan ardal gogledd-orllewinol Gogledd Cymru, sy'n rhan o Sir Conwy, dreftadaeth arbennig o gyfoethog ac amrywiol. Mae'n amrywio o aneddiadau ac amddiffynfeydd o'r amseroedd cynharaf hyd at waith peirianeg y twnnel o dan Aber Conwy ar ddiwedd yr 20fed ganrif.
- 2.2 Mae'r tirweddau yn y Sir hefyd yn amrywiol. Y gwastatir arfordirol yw cynnwys y prif drefi - Bae Colwyn, Llandudno, Conwy, Abergele, Penmaenmawr a Llanfairfechan. I'r de o'r trefi hyn mae ardal wledig helaeth, yn cynnwys Dyffryn Conwy gyda bryniau a mynyddoedd Eryri i'r gorllewin ac ucheldir eang i'r dwyrain a elwir yn Mynydd Hiraethog.
- 2.3 Yn y Sir mae amrywiaeth eang o strwythurau diddorol ac anarferol, sy'n cyfrannu'n sylweddol iawn at gymeriad ac edrychiad y Sir. Mae'r strwythurau hyn hefyd yn ein helpu i ddeall a gwerthfawrogi'r ffordd y mae'r Sir wedi tyfu a datblygu o'r amseroedd cynharaf at heddiw.
- 2.4 Mae gwahaniaethau amlwg rhwng rhannau gorllewinol a dwyreiniol y Sir. Mae Dyffryn Conwy yn ffurfio ffin naturiol, yn gwahaniaethu rhwng y gorllewin mynyddig a'r rhosydd mwy bryniog i'r dwyrain. Caiff y gwahaniaethau hyn eu diffinio nid yn unig gan y topograffi, ond hefyd gan y deunyddiau gwahanol sydd ar gael ar gyfer adeiladu. Yn yr un modd, rydym ni'n agos at lechen ac ithfaen yn y gorllewin er enghraifft, a'r cerrig clai a brigiadau o galchfaen carbonifferaidd yn y dwyrain ar hyd yr arfordir.
- 2.5 Mae hanes datblygiad archeolegol yr ardal yn adlewyrchu argaeledd deunyddiau lleol a thraddodiadau adeiladu. Bu dylanwad cryf gan Eryri ar saernïaeth y mewndir ac ardaloedd yn Nyffryn Conwy oherwydd argaeledd cerrig, pren a llechi.
- 2.6 Mae adeiladau hanesyddol â ffrâm bren bellach yn eithaf prin, ac mae'r rhan fwyaf o saernïaeth frodorol cyn y 18fed ganrif yn cael ei adeiladu gyda rwbel

cerrig. Cafodd brics eu cyflwyno'n fwy cyffredinol i'r Sir yn y 18fed ganrif ond, o gymharu â rhan ddwyreiniol Gogledd Cymru, mae adeiladau brics o ddechrau'r 18fed ganrif yn eithaf prin, yn dod yn fwy boblogaidd unwaith y caniatodd masgynhyrchiad a gwelliannau trafndiaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r deunydd gael ei ddefnyddio'n eang. Carreg oedd y deunydd adeiladu o ddewis yn dal i fod ar gyfer llawer o adeiladau dinesig a masnachol, megis banciau a oedd am greu statws uchel neu gymeriad mawreddog.

- 2.7 Daeth yr adeiladau bric a llechi yn fwy poblogaidd na'r adeiladau cerrig wrth i ganolfannau masnachol, cyrchfannau a hyd yn oed pentrefi ehangu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ynghyd â'r defnydd o frics fel deunydd adeiladu mono-cromatig, neu boly-cromatig, death teracota a gwaith haearn. Cafodd llawer o'r anheddiad arfordirol ym Mae Colwyn a rhannau o Landudno a Phenmaenmawr eu hadeiladu gyda gwaith brics nodweddiadol wedi'i wasgu, a gynhyrchwyd yn rhanbarthol. Creodd penseiri nodweddion fel tyrau i amlygu safleoedd pwysig fel corneli yn y cynlluniau ehangu trefol.
- 2.8 Roedd pensaernïaeth diwedd y 19eg ganrif yn yr ardal wedi'i ddylanwadu'n gryf gan arddulliau hanesyddol a gwaith penseiri nodedig gan gynnwys Gilbert Scott, Charles Barry a Detmar Blow.
- 2.9 Sefydlodd y pensaer lleol, Herbert Luck-North, thema Celf a Chrefft nodedig lleol drwy ddefnyddio llechi cerrig gyda chymeriad cryf gyda waliau plastr garw neu waliau gro chwipio e.e. Llanfairfechan.
- 2.10 Mae dylanwad yr arddull Clasurol hefyd yn amlwg yn rhannau o Landudno a Phenmaenmawr er enghraifft, lle defnyddir stwco addurnedig i greu argraff o fawredd a cheinder. Mae saernïaeth fodernaidd gyda paneli trwm gwyn a ffenestri llorweddol wedi'u masgynhyrchu yn sefyll allan, ond does dim llawer wedi goroesi heb eu newid. Mae gwaith haearn, dilysnod y cyfnod Fictoraidd, yn dal i fod yn amlwg, ac fe'i defnyddir yn bennaf fel addurn neu i greu nodweddion sy'n sefyll allan yn Llandudno a Bae Colwyn – lle mae canopiâu yn rhoi cysgod. Nid yw adeiladau â llen fetel megis cenadaethau, eglwysi ac adeiladau amaethyddol wedi goroesi'n dda, ond bellach mae'r strwythurau sy'n weddill yn sefyll allan gan eu bod yn adeiladau nodedig ac eithaf prin.

3. Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol

- 3.1 Mae adran 35 a 36 Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gofyn i Weinidogion Cymru gasglu a chadw cofnod amgylchedd hanesyddol hygyrch cyfredol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae pedwar Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru yn cynnal y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar ran Gweinidogion Cymru. Gellir gweld cofnodion fel Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Tirweddau Hanesyddol, parciau a gerddi a

henebion rhestredig oll yn yr adran Archwilio – gweler:

<https://www.archwilio.org.uk/arch/index.html>

- 3.2 Dylid nodi bod setiau data eraill megis Lle - Geo-portal ar gyfer Cymru: <https://lle.gov.wales/home> a Cof Cymru, Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru: <https://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?lang=cy> hefyd yn cynnwys cofnodion gofodol o asedau hanesyddol a dyma yw ffynhonnell y data ar gyfer Archwilio.

4. Adeiladau Rhestredig

- 4.1 Mae 1755 o adeiladau / strwythurau rhestredig yn y Fwrdeistref Sirol ac mae nifer o faterion perthnasol yn wynebu'r rhain, fel y nodir isod:
- 4.2 Ar hyn o bryd, mae gan Conwy 128 o adeiladau rhestredig ar y gofrestr "Mewn Perygl". Mae'r angen i ddatblygu strategaeth i fynd i'r afael â'r mater o adeiladau rhestredig mewn perygl o esgeulustod a dirywiad wedi ei nodi fel blaenoriaeth yng Nghonwy.
- 4.3 Cynhaliodd Scott Handley ailrolwg o adeiladau rhestredig yn 2016. Gallai'r adeiladau a restrwyd fel rhai mewn perygl fod yn ddarostyngedig i newid ers hynny a rhai eraill yn amlycach drwy bwysau'r cyhoedd. Bydd y rhestr "Mewn Perygl" yn rhoi'r sail ar gyfer llunio cynllun gweithredu. Rhoddir blaenoriaeth i adeiladau yn seiliedig ar y drefn y gellir cymryd camau effeithiol, yn ogystal â faint o gamau i'w cymryd. Rhoddir ystyriaeth i sgoriau perygl, graddfa adeiladu, cyfraddau dirywiad, cynlluniau a roddir mantais gymunedol, lleoliad, anheddau heb eu meddiannu mewn ardaloedd a dargedir ar gyfer adnewyddu, arwyddocâd yr eiddo a'i gyfraniad at y treflun a chyflawni canlyniad cadarnhaol. Yn y parth arfordirol, a lle mae adfywio gwledig drwy aildefnyddio sy'n ymwneud â masnach neu dwristiaeth yn briodol, gall adeiladau hanesyddol ychwanegu at fywiogrwydd economaidd ac atyniad y sir fel cyrchfan i dwristiaid.
- 4.4 Dylid archwilio'n ofalus newidiadau i ddefnydd sy'n cael effaith niweidiol ar ffabrig a nodweddion adeiladau rhestredig ac sy'n cael effaith wanychol ar yr adeilad dynodedig, neu ei lleoliad yn y tymor hwy, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddewisiadau eraill ar gael a fyddai'n caniatáu'r defnydd y bwriadwyd i'r adeilad barhau i fod yn wreiddiol, neu ddefnyddiau eraill a fyddai'n cadw ei gymeriad a'i ddiddordeb arbennig.
- 4.5 Mae angen rhoi cryn bwys ar ddiogelu adeiladau rhestredig a'u lleoliadau pan gyflwynir cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni amgen a mesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau dynodedig. Gall y mesurau hyn niweidio diddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig adeilad rhestredig ac mae angen ystyried yn ofalus. Bydd rheoliadau eraill megis y Rheoliadau Adeiladu a darpariaethau yn y Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn gofyn am sylw arbennig, er

mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn cadw cymeriad yr adeilad rhestredig.

- 4.6 Gall galluogi datblygiad fod yn un ffordd o sicrhau dyfodol adeiladau rhestredig lle nad yw mesurau eraill wedi bod yn llwyddiannus. Caiff hyn ei archwilio yn fanylach yn y Papur CDLI Amgylchedd Hanesyddol.

5. Ardaloedd Cadwraeth

- 5.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal 25 o ardaloedd cadwraeth dynodedig ar hyn o bryd, ac maent wedi'u rhestru isod:

- Ardal Gadwraeth Canol Tref Abergele
- Ardal Gadwraeth Betws-yn-Rhos
- Ardal Gadwraeth Cerrigydrudion
- Ardal Gadwraeth Canol Tref Bae Colwyn
- Ardal Gadwraeth Conwy
- Ardal Gadwraeth Gwytherin
- Ardal Gadwraeth Canol Tref a Glan Môr Llandudno
- Ardal Gadwraeth Llanelian-yn-Rhos
- Ardal Gadwraeth Canol Tref Llanfairfechan
- Ardal Gadwraeth Llanfairtalhaiarn
- Ardal Gadwraeth Llangernyw
- Ardal Gadwraeth Llangwm
- Ardal Gadwraeth Canol Tref Llanrwst
- Ardal Gadwraeth Llansannan
- Ardal Gadwraeth Hen Golwyn
- Ardal Gadwraeth Penmaenmawr (Penmaenan)
- Ardal Gadwraeth Penmaenmawr (Pen-y-Cae)
- Ardal Gadwraeth Penmaenmawr (St David's Road)
- Ardal Gadwraeth Penmaenmawr (Bythynnod Bell)
- Ardal Gadwraeth Canol Tref Penmaenmawr
- Ardal Gadwraeth Pentrefoelas
- Ardal Gadwraeth Pwllcrochan
- Ardal Gadwraeth Llandrillo-yn-Rhos

- Ardal Gadwraeth Llan San Siôr
 - Ardal Gadwraeth The Close
- 5.2 Mae rhai o'r ardaloedd cadwraeth hyn neu rannau sylweddol ohonynt yn cynnwys nodweddion hanesyddol dilys sydd wedi goroesi a sy'n dal i gyfrannu'n sylweddol at gymeriad arbennig nodedig yr ardal. Mewn achosion o'r fath, dylai'r pwyslais ar bolisiâu a chynigion fod ar gadw'r cymeriad a'r nodweddion presennol arbennig, tra'n gwella'r cymeriad arbennig lle y bo'n bosibl hefyd.
- 5.3 I'r gwrthwyneb, mae rhai ardaloedd cadwraeth wedi cael eu diraddio o ran cymeriad oherwydd newidiadau amhriodol ar raddfa fach i nodweddion allanol adeiladau, neu ddatblygiadau newydd ar raddfa fwy sy'n anghydnaws â chymeriad yr ardal. Lle mae hyn yn wir, dylai pwyslais polisiâu a chynigion fod i wella'r ardal drwy adfer nodweddion hanesyddol coll, adfer achosion o dorri rheolaeth gynllunio a gwella/newid datblygiadau amhriodol nad ydynt yn hanesyddol gydag adeiladau/estyniadau mwy cydnaws.
- 5.4 Yn aml gellir deall ac egluro ardaloedd cadwraeth yn wael i ddeiliaid, defnyddwyr ac ymwelwyr. Mae angen dadansoddi cymeriad arbennig ardaloedd unigol a llunio cynigion er mwyn rheoli newid yn y dyfodol gyda'r bwriad o gadw neu wella'r ardaloedd hyn.
- 5.5 Bydd cynigion ardal cadwraeth a gaiff eu gweithredu yn ystod cyfnod y Cynllun yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau rheoli wedi'u teilwra i nodweddion unigol pob ardal ddynodedig. Mae rhai themâu allweddol wedi'u nodi isod:
- Mesurau diogelwch mewn ardaloedd masnachol/manwerthu
 - Blaenau siopau mewn ardaloedd manwerthu
 - Hysbysebion mewn ardaloedd masnachol/manwerthu
 - Defnyddiau hanesyddol mewn ardaloedd masnachol/manwerthu a phreswyl
 - Rheoli traffig a dyluniad y briffordd
 - Nodweddion Strydlun
 - Datblygiadau bach mewn ardaloedd preswyl
 - Datblygiad ychwanegol/mewnlenni mewn ardaloedd preswyl
 - Rheoli hawliau datblygu a ganiateir mewn ardaloedd preswyl
 - Mesurau arbed a chynhyrchu ynni mewn ardaloedd cadwraeth
 - Amddiffyn lleoliadau ardaloedd cadwraeth.

5.6 Yn ogystal â chynhyrchu Cynlluniau Rheoli Ardal Gadwraeth unigol, mae CCA Ardal Gadwraeth generig wedi eu mabwysiadu, sy'n cwmpasu pynciau sy'n effeithio ar nifer eang o ardaloedd cadwraeth, er enghraifft, gosod UPVC, canllaw ffenestri, toeau newydd ac ati. Mae dau CCA pellach wedi'u mabwysiadu hefyd, sy'n rhoi canllawiau i'r darllenwr am fesurau diogelwch priodol i flaen siopau a sut i newid blaen siopau pan fo angen.

6. Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd

6.1 Mae ardal gadwraeth Conwy yn cynnwys y castell a muriau'r dref o'r drydedd ganrif ar ddeg, sydd wedi'u dynodi fel rhan o Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r dynodiad hwn yn rhoi blaenoriaeth i ardal gadwraeth tref Conwy. Mae diddordeb eithriadol y dref a'i strwythurau amddiffynnol canoloesol yn gofyn am gynigion rheoli penodol sydd wedi'u teilwra i ddiogelu eu ffabrig a'u lleoliadau uniongyrchol ac ehangach.

6.2 Mae pwysigrwydd hanfodol y bensaernïaeth filwrol ganoloesol a'r gweithrediadau peirianeg diweddarach yn gosod cyfyngiadau ychwanegol ar yr ardal gadwraeth a'i lleoliad. Mae angen ystyried y ffactorau hyn pan fydd y Cyngor yn adolygu'r ardal gadwraeth hon. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu sicrhau cadwraeth strwythurau hanesyddol sydd wedi goroesi, yn ogystal â gwella a diogelu cymeriad y dref hanesyddol a'r cyffiniau pan ddaw'r cyfle i wneud hynny.

6.3 Mae UNESCO yn gofyn am baratoi'r Cynllun Rheoli i lywio datblygiad Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n cynnwys cestyll a muriau Edward I yng Nghonwy, Caernarfon, Harlech a Biwmares. Mae Cynllun Rheoli wedi ei baratoi, sy'n cynnwys clustogfa diffiniedig a'i fwriad yw diogelu Safle Treftadaeth y Byd Conwy. Mae'r cynllun rheoli hwn yn ffurfio CCA wedi'u mabwysiadu ar hyn o bryd (mabwysiadwyd ym mis Ebrill 2018), fodd bynnag mae'r clustogfa ar y map cynigion yn dal i adlewyrchu'r clustogfa 'drafft' a luniwyd nifer o flynyddoedd yn ôl. Bwriad swyddogion yw y bydd map cynigion RLDP yn cynnwys y ffiniau diwygiedig ar gyfer y clustogfa fel y dangosir yn y CCA a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2018.

6.4 Mae dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Conwy yn cyflwyno agweddau pellach y mae'n rhaid eu hystyried, eu gwerthuso a'u rheoli os bwriedir cyflawni amcanion y rheolaeth gyffredinol. Rhestrir y deuddeg amcan a nodir yn y cynllun rheoli isod:

- Amcan 1: Cynnal y cestyll a muriau'r dref i'r safonau cadwraeth cenedlaethol a rhyngwladol uchaf.
- Amcan 2: Cadw, hyrwyddo a dehongli'r dreftadaeth archeolegol er budd cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

- Amcan 3: Diogelu Safle Treftadaeth y Byd er budd cenedlaethau'r dyfodol.
- Amcan 4: Cefnogi a hyrwyddo hynodrydd lleol o fewn Safle Treftadaeth y Byd, gan gydnabod nodweddion ac amrywiaeth pob un o'r pedair tref.
- Amcan 5: Defnyddio statws Safle Treftadaeth y Byd i gefnogi amrywiaeth economaidd gynaliadwy a thwf yn yr economi leol a rhanbarthol.
- Amcan 6: Darparu profiad i ymwelwyr sy'n unigryw ac o'r ansawdd uchaf.
- Amcan 7: Marchnata a hyrwyddo'r pedwar lleoliad - Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech fel un Safle Treftadaeth y Byd er mwyn sicrhau dull cydlynol ac integredig.
- Amcan 8: Annog mwy o ddefnydd o ddulliau teithio cynaliadwy fel ffordd o ymweld â phob un o'r cyrchfannau o fewn Safle Treftadaeth y Byd, heb amharu ar y nodweddion sy'n dangos natur unigryw Safle Treftadaeth y Byd ar lefel ryngwladol.
- Amcan 9: Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo dealltwriaeth o Dreftadaeth y Byd ymhlith amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys cymunedau lleol, gan ennyn balchder yn eu diwylliant a'u treftadaeth unigryw.
- Amcan 10: Datblygu gwell dealltwriaeth o Safle Treftadaeth y Byd a helpu i lywio ei reolaeth yn y dyfodol yn well.
- Amcan 11: Nodi, dileu a/neu liniaru risgiau i Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd.
- Amcan 12: Cydnabod pwysigrwydd meithrin partneriaethau presennol a datblygu partneriaethau newydd, fel y bo'n briodol, i gefnogi rheolaeth barhaus Safle Treftadaeth y Byd. (Ffynhonnell - Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd, Cadw 2018.)

7 Tirweddau Hanesyddol, Parciau a Gerddi

- 7.1 Mae gan Gonwy 4 dynodiad tirwedd hanesyddol ac 17 o Erddi Cofrestredig yn ei ardal gynllunio. Mae'r gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yn gofrestr anstatudol a ddefnyddir i lywio'r broses wneud penderfyniadau a pholisi ar lefel strategol. Er ei fod yn anstatudol, mae ei bresenoldeb yn bwysig yn nhermau cynllunio gan y cyfeirir ato ym Mholisi Cynllunio Cymru. Dylid cyfeirio ato hefyd wrth ystyried ceisiadau cynllunio sy'n gofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, neu gynnwys materion sy'n fwy na phwysigrwydd lleol (hy ceisiadau a alwyd i mewn.)

- 7.2 Mae'n ddyletswydd statudol (ar Weinidogion Cymru) i lunio a chadw cofrestr gyfredol o barciau a gerddi hanesyddol. Ni ddylai datblygiadau newydd a gynigir o fewn ffiniau neu o fewn eu lleoliadau hanfodol diffiniedig niweidio diddordeb arbennig tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol. Dylid gwerthuso cynigion datblygu o fewn tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi yn systematig er mwyn sicrhau bod yr asedau hyn yn cael eu diogelu'n ddigonol. Mae rhagor o wybodaeth gefndir ar gael yn Archwilio <https://www.archwilio.org.uk/arch/index.html> i weld ble mae'r tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol wedi'u lleoli. I gael manylion am yr arferion gorau o ran y dynodiadau hyn gweler Cadw: <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/protection/historicparksandgardens/?lang=cy>

8 Henebion Rhestredig a Safleoedd Archeolegol

- 8.1 Mae henebion cofrestredig yn safleoedd archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol sydd wedi'u diogelu dan Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979. Mae 155 o Henebion Cofrestredig yn ardal gynllunio Conwy a gellir dod o hyd i restr o'r rhain yn Archwilio. Effaith cofrestru yw bod angen caniatâd heneb gofrestredig ar gynigion i ddifrodi, dymchwel, symud, trwsio, newid, ychwanegu, gorlifo neu orchuddio henebion rhestredig, ar ben y gofyniad am ganiatâd cynllunio.
- 8.2 Dylai datblygiad fod yn sensitif i gadw gweddillion archeolegol ac mae polisïau cenedlaethol yn pwysleisio'r angen i werthuso safleoedd, eu cofnodi a chadw'r rhai pwysicaf. Wrth ystyried cynigion ar safleoedd archeolegol heb eu cofrestru, bydd y Cyngor yn ymgynghori ag Ymddiriedolaethau Archeolegol Clwyd-Powys / Gwynedd, ac yn ystyried diddordeb a phwysigrwydd y safleoedd a'u lleoliadau. Lle bo angen, bydd y Cyngor yn mynnu bod safleoedd yn cael eu hasesu a'u gwerthuso'n iawn cyn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio. Gwrthodir caniatâd cynllunio os yw'r safle archeolegol o ddiddordeb digonol i haeddu cael ei amddiffyn rhag aflonyddwch yn gyfan gwbl. Gellir diogelu a chofnodi safleoedd hefyd drwy ddefnyddio amodau a chytundebau cynllunio.

9. Asedau Hanesyddol o Bwysigrwydd Lleol

- 9.1 Wedi'i ddiffinio fel 'Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol' yn CDLI Conwy (2007-2022), mae canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol bellach yn cydnabod y potensial i ddynodi asedau treftadaeth o'r fath ar lefel leol. Mae polisi cenedlaethol hefyd yn diffinio asedau o'r fath i fod yn ehangach nag adeiladau a strwythurau, a dylid adlewyrchu hyn yn yr RLDP. Ers mabwysiadu'r Cynllun Cyflenwi Lleol, mae cynnydd yn cael ei wneud o ran adnabod Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol drwy ddull arolwg.

Mae rhestr fer o 122 o Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol wedi'i gasglu ac yn mynd ymlaen i gael eu mabwysiadu pan fyddent yn barod.